

Y Celfyddydau Mynegiannol**Thema:**

Celf Cymraeg (lluniau o'r mynyoedd yn Gymru)

Patrwm: Mae well gyda fi, achos mae'n...

Geirfa: lliwgar, tywyll, disglair, llonydd, bywiog, bras, llyfn manwl, syml, diddorol, dramatig + geirfa teimladau

Gweithgareddau:

Drilio – geirfa & patrwm.

Edrych a David Haswell paentiadau. Defnyddio ansoddeiriau.

Ysgrifennu ansoddeiriau i ddisgrifio'r paentiadau ar 'post-its' Rhoi nhw ar paentiadau.

Cymharu 2 paentiadau defnyddio'r patrwm & ansoddeiriau.- siarad

Chwarae rôl - Bydd y plant yn esgus bod yn feirniaid celf mewn

Oriel.

Pyramid – defnyddio'r brawddegau.

**Iechyd a Lles**

Thema: Ymlacio yn Y Gelli

Patrwm/ Patrymau / Ffocws Iaith

Hoffwn i...

Hoffwn i ddim...

Bydd y plant yn dysgu sut i ddweud beth hoffen nhw yn y dre.

Geirfa: maes chwarae, maes pêl-droed, pwll nofio, coedwig, llyfrgell, siopau, sinema.

Gweithgareddau:

Drilio

Siarad mewn parau gyda lluniau

Trapddor

Llunia fap o'r Gelli gyda'u syniadau. Ysgrifenna frawddegau.

**Y Dyniaethau**

Thema: Mynyddoedd ym Mannau Brycheiniog

Patrwm/ Patrymau / Ffocws Iaith

Cymharu

Dyma __ Mae __ yn dalach na __
yn fyrrach na
yn uchelaf na
yn is na

Gweithgareddau:

Dril, aros, ailadrodd

Darllen, rhedeg, arddywediad – ailadrodd!

Gêm siarad

Gwir neu Dwyll?!

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Thema: Yr Wyl y Gelli

Patrwm/Focws Iaith: Taswn i – baswn i -Yr amodol

Gweithgareddau: Drilio, rapio

Darllen fy meddwl

Lleidr Brawddeg

Eisteddwch pan fydd eich brawddeg yn wahanol

**Mathemateg a Rhifedd**

Thema: Yr Wyl y Gelli – amseroedd sioe

Patrwm/ Patrymau / Ffocws Iaith:

Mae hi'n ____ o'r gloch.

Mae hi'n hanner awr wedi _____

Treigladd meddal - rhifau

Geirfa: Rhifau

Gweithgareddau:

Drilio

Llongau Rhyfel

Gwrandewch ar Radio Gŵyl y Gelli!

Fy Niwrnod yn yr Wyl y Gelli

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Thema: Castell y Gelli

Patrwm/ Patrymau / Ffocws Iaith

Mae ____ gyda'r castell.

Mae castell yn...

Mae castell wedi'i wneud o...

Geirfa: rhifau, ffenestri, drws/drysau, twr, mawr, bach, hen, cerrig, brics, pren.

Gweithgareddau:

Drilio'r patrymau & geirfa.

Dilynwch orchmynion i dynnu castell. Defnyddiwch yr iaith newydd.

Ymweld Castell Y Gelli.

Disgrifio'r castell defnyddio'r patrymau (gallwn nhw ddefnyddio mat iaith)

Adeiladu castell ar Minecraft.

Disgrifio'u castell defnyddio'r y patrymau & geiriau.



leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Thema: Gŵyl y Gelli

Yr Amodol

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Penderfynais i addysgu'r plant sut i siarad am beth hoffen nhw i wneud yng Ngŵyl y Gelli. Yng Ngŵyl Y Gelli, mae'r llawer o sioeau. Yn ystod y sioeau, mae'r awduron plant siarad am eu llyfrau. Rydw i eisiau'r plant fynegi barn am bethau yr hoffent eu gwneud yn yr ŵyl.

Hoffwn iddyn nhw ddysgu y patrymau:

Taswn i baswn i....

Fyddda i ddim yn addysgu 'hoffwn i', achos maen nhw wedi dysgu hynny yn barod. Rydw i eisiau iddyn nhw ddysgu patrwm gwahanol. Mae'r patrymau 'baswn i a taswn i' yn yr amodol. Mae'r amodol yn newydd iddyn nhw. Felly, bydd angen llawer o ymarfer arnyn nhw siarad a gwrando.

Dylwn i ddilyn y methodoleg Gianfranco Conti achos rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n gweithio orau. Rydw i eisiau datblygu sgiliau gwranddo a siarad, ychydig o ddarllen ac ysgrifennu. Rydw i'n credu bod angen i'r plant wrando, siarad a deall yn gyntaf. Hefyd dylen nhw ddysgu'r patrymau cyn iddyn nhw eu hysgrifennu. Cyn i fi ddechrau addysgu'r patrymau newydd, byddwn i'n ymarfer yr eirfa. Rydyn ni'n gwybod y gallwn ni ddysgu am chwe pheth newydd.

Bydd y wers yn dechrau gyda drilio. Mae drilio yn syniad da achos bydd yr athrawes yn modelu'r patrymau newydd a bydd y plant yn clywed y patrymau llawer o weithiau. Gallwn i drio gwneud drilio hwyl gan ddefnyddio gemau, cerddoriaeth a symudiad. Yn ystod fy meicro-ddysgu, 'rapio-ais' i fy mhatrymau. Maen nhw wedi cofio'r patrymau ar ôl y wers. Felly, rydw i'n gwybod bod y gerddoriaeth a'r ailadrodd yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae'r patrymau newydd yn anodd iawn achos mae dwy ran. Dydw i ddim eisiau'r plant gael gormod gyda nhw i feddwl amdano.

Drilio/Rapio



Dewisaais i ddrilio'r patrwm yn gyntaf a bydd y plant yn clywed y patrwm llawer gwaith. Cyn y cwrs, wnes i ddim gwneud llawer o ddrilio yn yr ysgol, achos doeddwn i ddim yn deall pa mor bwysig ydy e.

Mae Gianfranco Conti yn dweud wrthon ni bod yn dysgu iaith yn dechrau gyda gwrando. Byddan nhw'n dweud y patrymau gyda'i gilydd achos yna byddan nhw'n teimlo'n ddiogel. Rydw i eisiau iddyn nhw deimlo'n hyderus. Fydd neb ddim yn clywed camgymeriadau. Bydda i'n gwneud y drilio yn gêm. Pan fydd y plant yn cael hwyl, byddan nhw'n dysgu mwy. Wedyn, bydda i'n adio cerddoriaeth i'u helpu nhw.

Drilio

Sut i wneud

- Rhoi'r frawddeg (neu darn o'r frawddeg) ar y bwrdd. Dweda'r frawddeg i plant yn ofalus.
- Dweda '*dwedwch ar fy ôl i'*'. Dylai'r plant ailadrodd y darn. Dylen nhw wneud symudiad gyda'r frawddeg.
- Hefyd, byddwn i'n defnyddio lleisiau gwahanol, fel robot, cath, yn dawel, yn araf. Bydd y symudiad a hwyl yn eu helpu i gofio'r frawddeg.
- Hoffwn i ymddangos y lluniau a geiriau yn ystod y drilio.
- Wedyn, dylen nhw basio'r bel o gwmpas y cylch. Pan mae'r bel gyda nhw, dylen nhw ddweud y frawddeg neu'r darn.
- Hoffwn i'r grŵp gwaelod mynd olaf, felly maen nhw wedi clywed y frawddeg llawer o gwaith.

Rapio

Byddwn i'n dweud y frawddeg gyda rhythm cryf. Rydw i'n meddwl e fod e'n helpu'r frawddeg aros yn eu cofion. Yn ystod y rapio, byddai i'n canu'r frawddeg, wedyn bydd y plant yn dweud e fy ôl i. Dylai'r plant gael mat iaith gyda nhw. Wedyn, bydd y plant yn gweld y darnau brawddegau.

Bydden nhw ddawnsio hefyd wrth gwrs!



Beth faset ti'n wneud yng Ngŵyl y Gelli?



Taswn i'n mynd i Ŵyl y Gelli, baswn i'n mynd i sioe.



Taswn i'n mynd i Ŵyl y Gelli, baswn i'n mynd i siop llyfr.



Enghreifftiau o'r brawddegau a fyddai'n ymddangos yn ystod y drilio a'r rapio.

Taswn i'n mynd i Wyl y Gelli, baswn i'n darllen llyfr da.



Taswn i'n mynd i Wyl y Gelli, baswn i'n edrych am bobl enwog.



Taswn i'n mynd i Wyl y Gelli, baswn i'n tynnu lluniau.



Beth faset ti'n wneud yng Ngŵyl y Gelli?

Taswn i'n mynd i Ŵyl y Gelli, baswn i'n prynu hufen iâ.



Taswn i'n mynd i Ŵyl y Gelli, baswn i'n gwrando ar stori.



Taswn i'n mynd i Ŵyl y Gelli, baswn i'n gwrando ar gerddoriaeth.



Beth	faset ti'n wneud	yng Ngŵyl y Gelli?	Mat Iaith 
Taswn i'n	mynd i Ŵyl y Gelli	baswn i'n	gweld i sioe prynu hufen iâ mynd i siop llyfr gwrando ar gerddoriaeth gwrando ar stori darllen llyfr da edrych am bobl enwog tynnu lluniau

Beth	faset ti'n wneud	yng Ngŵyl y Gelli?	
Taswn i'n	mynd i Ŵyl y Gelli	baswn i'n	 gweld i sioe  prynu hufen iâ mynd i siop llyfr   gwrando ar gerddoriaeth gwrando ar stori   darllen llyfr da edrych am bobl enwog   tynnu lluniau

Darllen fy meddwl



Byddwn ni'n chwarae'r gêm gyda'n gilydd, yna bydd y plant yn chwarae y gêm mewn grŵp bach. Pan fydd y plant yn chwarae mewn grŵp bach, bydd cyfle iddyn nhw siarad a gwrando a theimlo'n fwy hyderus.

Gwahaniaethu: hoffwn i roi mat iaith i'r grŵp gwaelod, a darllen y frawddeg gyda'i gilydd. Bydd hi'n haws os does dim rhaid iddyn nhw edrych ar y bwrdd gwyn. Hefyd, dylen nhw ateb yn olaf, wedyn maen nhw wedi clywed llawer o atebion yn barod.

Sut i chwarae

Cam 1 – Dangoswch y sleid nesaf ar y bwrdd gwyn.

Cam 2- Dewiswch chwaraewr i ddod ymlaen. Bydd y chwaraewr yn dewis ei frawddeg.

Cam 3 – Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu'r frawddeg gywir. Mae rhaid iddyn nhw ddarllen y frawddeg.

Cam 4 – Newid chwaraewr. Rhaid i'r chwaraewr newydd ddewis y frawddeg newydd.

Darllen fy meddwl

Beth faset ti'n wneud yng Ngŵyl y Gelli?



Taswn i'n

mynd i Ŵyl y Gelli

baswn i'n

gweld i sioe
prynu hufen iâ
mynd i siop llyfr
gwrando ar gerddoriaeth
gwrando ar stori
darllen llyfr da
edrych am bobl enwog
tynnu lluniau

Lleidr Brawddeg!



Hoffwn iddyn nhw chwarae 'Lleidr Brawddeg' nesa. Rydw i'n hoffi'r gêm hon achos mae ychydig anoddach na Darllen fy Meddwl. Mae angen llawer o ymarfer siarad a gwrando arnyn nhw. Hefyd, byddan nhw'n gallu ymarfer darllen y darnau. Baswn i'n gwrando arnyn nhw yn ofalus, a siarad fodel iddyn nhw.

Sut i Chwarae

Cam 1 – Rhowch wyth brawddeg ar y bwrdd gwyn. Bydd pawb yn darllen y frawddegau gyda'n gilydd.

Cam 2- Wedyn, rhowch dri cherdyn i'r plant. Mae rhaid iddyn nhw ysgrifennu brawddeg ar bob cerdyn.

Cam 3 – Nesa, byddan nhw'n cerdded o gwmpas y dosbarth. Pan fyddan nhw'n cwrdd â pherson arall, byddan nhw'n chwarae '*carreg, papur, siswrn*'. Bydd yr enillydd yn dyfalu brawddeg ei bartner. Os ydyn nhw'n gywir, byddan nhw'n mynd â'r frawddeg.

Cam 4 - Oes gyda chi'r mwyaf o gardiau? Chi sy'n yr enillydd!

Gwahaniaethu

Bydd plant y grŵp gwaelod yn gweithio gyda phartner. Dylen nhw helpu ei gilydd darllen y brawddegau. Hefyd bydd yr athrawes yn gwirio eu gwaith a darllen y brawddegau gyda'r plant.



Lleidr Brawddeg!

Ysgrifennwch frawddeg ar bob cerdyn!

Ysgrifennwch tair brawddeg.



Taswn i'n

mynd i Wyl y Gelli

baswn i'n

gweld i sioe
prynu hufen iâ
mynd i siop llyfr
gwrandu ar gerddoriaeth
gwrandu ar stori
darllen llyfr da
edrych am bobl enwog
tynnu lluniau

Eisteddwch pan fydd eich brawddeg yn wahanol!



Bydd y gweithgaredd hon yn ymarfer eu holl sgiliau pwysig gyda'u patrymau newydd.

Bydd y plant yn defnyddio eu mat iaith nhw eu helpu nhw.

Byddwch i angen:

Taswn i'n	mynd i Vylt y Celli	bawen i'n	gweld i sioe prynu hufen iâ mynd i siop lyfr gwrandu ar gerddoriaeth gwrandu ar stori darllen lyfr da edrych am bobl enwog tynnu lluniau
-----------	---------------------	-----------	---



Sut i chwarae

Cam 1 - Bydd pawb yn ysgrifennu brawddeg o'u mat iaith ar eu byrddau bach gwyn.

Cam 2 - Ar yr un pryd bydd yr athrawes yn ysgrifennu brawddeg o'r mat iaith ar eu bwrdd gwyn bach.

Cam 3 – Mae pawb yn sefyll i fyny. Bydd yr athrawes yn dechrau darllen eu brawddeg i'r plant. Bydd y plant yn gwrandu'n ofalus, ac yn darllen eu brawddeg nhw. Os bydden nhw'n clywed eu brawddeg, mae rhaid iddyn nhw eistedd i lawr.

Cam 4 – Y person sy'n dal sefyll ar y diwedd, ydy'r enillydd.

Gwahaniaethu: Mat iaith gyda lluniau i'u grŵp waelod eu helpu nhw wneud eu brawddegau.

Eisteddwch pan fydd eich brawddeg yn wahanol!

Ysgrifennwch eich brawddeg ar eich bwrdd bach gwyn.



Taswn i'n

mynd i Wyl y Gelli

baswn i'n

**gweld i sioe
prynu hufen iâ
mynd i siop llyfr
gwrando ar gerddoriaeth
gwrando ar stori
darllen llyfr da
edrych am bobl enwog
tynnu lluniau**

Y Dyniaethau

**Thema: Mynyddoedd ym Mannau
Brycheiniog**

Cymharu

Daearyddiaeth- Dyniaethau

Mae'r Mynyddoedd Duon ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a mae'r Gelli wrth ymyl nhw. Rydyn ni'n gweld y Mynyddoedd o ysgol a mae rhai plant yn byw yn y mynyddoedd. Rydw i'n meddwl bod yn bwysig bod y plant yn dysgu am ble maen nhw'n byw. Taswn i'n gwneud y wers gyda fy nosbarth, hoffwn i fynd â'r plant i'r mynyddoedd achos rydw i'n credu y dylen nhw fynd i'r mynyddoedd i ddysgu amdanyn nhw.

Hoffwn i'r plant ddysgu sut i gymharu'r mynyddoedd. Byddan nhw'n meddwl am ba mor fawr neu fach ydyn nhw. Cyn i fi addysgu'r wers, byddwn i'n siarad â nhw am y mynyddoedd. Bydden ni'n meddwl am beth maen nhw'n gwybod yn barod. Taswn i'n addysgu'r wersi 'ma, baswn i'n siarad am enwau'r mynyddoedd a gobeithio bydd y plant yn dechrau meddwl am ba mor dal ydy'r mynyddoedd.

Mae'n bwysig eu bod nhw'n clywed yr ynganiad cywir felly dylai'r plant wrando cyn iddyn nhw siarad.

Mae'n rhy anodd i'r plant gofio mwy na chwech geiriau newydd felly ddylwn i ddim addysgu gormod o eirfa newydd. Bydd y plant yn gwybod holl eirfa arall bydden ni'n defnyddio yn y wers.

Dril, aros, ailadrodd: Bydd rhaid plant cofio'r frawddeg am tua dau ddeg eiliad – amser hir!

Gwahaniaethu

Dylai'r grŵp gwaelod edrych ar fat iaith. Bydd y mat wedi'i lamineiddio, yna bydden nhw'n tynnu llinell o dan yr eirfa a'r brawddegau eu hangen arnynt.

Hoffwn i roi'r grŵp uchaf her. Ddylen nhw ddim edrych a'r bwrdd gwyn. Allen nhw gofio'r frawddeg heb edrych o gwbl?

Daearyddiaeth- Dyniaethau

Gweithgaredd 1 – drilio

Dyma 🙌 Mae 🙌 yn dalach na 🙌




Dyma 🙌 . Mae 🙌 yn fyrrach na 🙌



Dyma 🙌 . Mae 🙌 yn uchelaf na 🙌



Dyma 🙌 . Mae 🙌 yn is na 🙌



Dril, aros, ailadrodd

(Bydd y brawddegau diflannu ac yn ymddangos eto i'r plant gwirio.)

Dyma Pen y Fan.

Mae Pen y Fan yn dalach na Corn Du.

Dyma Corn Du.

Mae Corn Du yn fyrrach na Pen y Fan.

Dyma Waun Fach.

Mae Waun Fach yn uchelaf na Cribyn.

Dyma Cribyn.

Mae Cribyn yn is na Waun Fach.

Darllen, rhedeg, arddywediad – ailadrodd!

Fyddwn i ddim yn defnyddio llawer o eiriau newydd achos mae'n bwysig iawn ailgylchu'r hen eirfa a dylen nhw wybod sut i ddweud y geiriau.

Mae'r ychydig o ffyrdd i wahaniaethu dasg hon.

Gallwn i:

- **wneud testun hawsach.**
- **ddweud y frawddeg gyda'r plentyn lawer gwaith cyn iddyn nhw redeg.**
- **wneud y geiriau yn y testun yn fwy, gyda mwy o le. Bydd yn haws i ddarllen.**

- **Gall y plant gofio llai o eiriau -gallant nhw gofio darn o frawddeg.**

Gorchmynion am Cynorthwydd Addysgu

- **Dylai'r plant weithio mewn parau. Rhoi'r testunau mewn ystafell arall.**
- **Esbonia i'r plant eu fod yn rhaid iddyn nhw gymryd tro.**
- **Bydd partner A yn rhedeg at y testun. Mae rhaid iddyn nhw ddarllen ychydig, gofio e, yna maen nhw'n rhedeg at eu partner.**
- **Nesa, mae rhaid iddyn nhw ddweud y frawddeg wrth eu partner. Dylai Partner B wrando'n ofalus, ac ysgrifennu'r frawddeg.**
- **Wedyn, bydden nhw'n cyfnewid lleoedd.**
- **Gofynna iddyn nhw ddarllen eu gwaith i chi. Cywira eu siarad a'u hysgrifennu yn garedig.**
- **Dylen nhw gyfateb yr enwau mynyddoedd gyda â'r lluniau. Gofynna i bâr ddarllen y testun i'r dosbarth.**

Darllen, rhedeg, arddywediad – ailadrodd!

(bydd y cynorthwyydd addysgu yn darllen hwn)

- Dylech chi chwarae mewn parau – Partner A a Partner B.
- Mae rhaid i Partner A yn rhedeg i'r testun.
- Dylech ddarllen y testun. Cofiwch frawddeg.
- Rhedwch at eich partner. Dywedwch eich brawddeg wrthyn nhw.
- Rhaid i Partner B yn ysgrifennu'r frawddeg yn ofalus.
- Newidiwch!

- **Mae'r llawer o mynyddoedd ym Mannau Brycheiniog.**
- **Wyt ti'n gwybod bod Pen y Fan ydy'r talaf?**
- **Mae Pen y Fan yn dalach na Fan Hir.**
- **Mae Fan Hir yn fyrrach na Pen y Gadir Fawr.**
- **Mae Pen y Gadair Fawr yn is na Waun Fach.**
- **Mae Waun Fach yn uchelaf na Pen y Fal.**
- **Mae Pen y Fal yn dalaf na Crug Hwyl.**
- **OND, Everest ydy'r talaf yn y byd!**



Gêm 2



Dewisais i'r gêm hon achos byddai y plant siarad yn annibynnol, felly mae'n gam anoddach. Mae'r gêm hwyl gyda lawer o symudiad ac egni.

Rydych chi angen - Chwech llun o fynyddoedd ym Mannau Brycheiniog. Rhoi nhw o gwmpas y dosbarth. Bydd yr athrawes angen chwech llun hefyd. Mat iaith am y grŵp gwaelod.

Sut i Chwarae

- Ar y bwrdd gwyn dangosa luniau o'r mynyddoedd o'r lleiaf i'r uchaf.
- Cyntaf, gofynna'r plant sefyll tu ôl eu cadeiriau.
- Nesa, eglura iddyn nhw bod pan fydd y gerddoriaeth yn dechrau, mae'r rhaid iddyn nhw ddawnsio o gwmpas. Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio, dylen nhw sefyll wrth ymyl llun.
- Wedyn, dangosa iddyn nhw lun a dweud wrthyn nhw pa mor uchel ydy'r mynydd.
- Gofynna i blentyn '*Dyma Twmpa. Ydy dy fynydd di'n is neu dalach na fy mynydd i?*
- Tro cyntaf, dylet ti fodelu'r ateb iddyn nhw e.e. "*Dyma Pen y Fan. Mae Pen y Fan yn dalach na Twmpa.*"

Gwahaniaethu

Ar y gefn lluniau, byddwn i'n ysgrifennu'r brawddegau gyda bylchau, fel hyn:

Dyma_____. Mae _____ yn dalach na _____

Mae'r enghraifft o'r gwahaniaethu yn yr adnoddau. Mae'r tri grŵp ar gardiau o wahanol liwiau.

Hefyd, dylet ti fodel dweud y frawddeg a bydd y plentyn yn dweud y frawddeg ar dy ôl di.

Gêm 2



Blaen y llun



Pen y Fan

Uchder: 886m

Cefn o llun

Dyma_____

Mae _____ yn dalach na_____

yn uchelach na_____

yn fyrrach na_____

yn is na _____





Blaen y llun	Cefn o llun
 Cribyn Uchder: 795 m	Dyma_____ Mae _____ yn dalach na_____ yn uchelach na_____ yn fyrrach na_____ yn is na _____



Blaen y llun	Cefn o llun
 Waun Fach Uchder: 811 m	Dyma Mae yn dalach na yn uchelach na yn fyrrach na yn is na

Mwy her? Byddwn i'n dweud wrthyn nhw "Peidiwch ag edrych a'r cefn!"



Gwir neu Dwyll?!

Dewisais i'r gweithgaredd achos fy mod i eisiau iddyn nhw ddatblygu sgiliau gwranddo. Hoffwn iddyn nhw wrando ar y patrymau maen nhw wedi'u dysgu, a'u defnyddio yn gêm hon. Maen nhw wedi cael llawer o ymarfer gyda help a nawr mae'n bryd i waith heb help. Wrth gwrs, byddwn i'n roi'r grŵp gwaelod matiau iaith.

Rydych chi angen

- Botymau sain – bydd patrwm ar bob botwm. E.e. Mae Waun Fach yn is na Pen y Fan. Gwir neu dwyll? Rhwng y botymau o gwmpas y dosbarth.
- Taflennau

Sut i chwarae

- **Gwaith pêr. Rhwch daflen atebion, a mat helpu i bob parau.**
- **Dwedwch wrth y plant fod rhaid iddyn nhw yn ddod o hyd y brawddegau cywir. Mae rhaid iddyn nhw wrando ar y botymau sain.**
- **Nesa, dylen nhw benderfynu os mae'r frawddeg yn gywir neu'n dwyll.**
- **Dylen nhw ymweld bob botwm.**

Gwahaniaethu

- **Mat iaith.**
- **Bydd pob brawddeg ar y botwm ddwywaith. Yr ail dro, bydd yn arafach.**

Gwir neu Dwyll – taflen atebion

Botwm	Cywir 	Dwyll 
		
		
		
		
		
		

Dyma'r brawddegau ar y botymau.

Dyma Waun Fach. Mae Waun Fach yn is na Pen y Gadair Fawr.

Dyma Pen y Fan. Mae Pen y Fan yn dalach na Waun Fach.

Dyma Pen y Fal. Mae Pen y Fal yn fyrrach na Pen y Gadair Fawr.

Dyma Pen y Gadair Fawr. Mae Pen y Gadir Fawr yn uchelaf na Pen y Fal.

Dyma Pen y Fan. Mae Pen y Fan yn is na Pen y Fal.

Gwir neu Dwyll – taflen wybodaeth

Mynydd	Uchder
Waun Fach	811 m
Pen y Fan	886 m
Pen y Gadair Fawr	800 m
Pen y Fal (<i>Sugar Loaf</i>)	596 m

Mathemateg a Rhifedd

Thema: Wyl y Gelli – amseroedd sioe

	1	2	3	4
A				
B				
C				
D				



Penderfynais i addysgu hyn achos roeddwn i eisiau cysylltu amser â'r Wyl y Gelli. Mae'n cysylltu naturiol achos gall y plant drefnu eu hymweliad â'r Wyl y Gelli. Mae Gianfraco Conti'n dweud ein bod ni eisiau addysgu'r plant i gyfathrebu. Felly mae'n bwysig iawn rhoi'r iaith newydd mewn brawddegau defnyddiol. Bydd hi hawsaf i'r plant ddysgu fel hyn.

Mae'n well gyda fi cysylltu'r gwaith â bywyd go iawn, wedyn bydd y plant yn deall pam maen nhw'n dysgu hi.

Byddwn i'n addysgu 'o'r gloch' a 'hanner awr' yn unig i ddechrau, achos rydw i'n gwybod ei bod hi'n anodd dysgu'r amser yn Saesneg. Felly mae'n bwysig iawn i ddysgu mewn camau bach. Cyn iddyn nhw ddysgu amser yn Gymraeg, dylen nhw'n gwybod 'o'r gloch' a 'hanner awr' yn Saesneg yn barod.

Hefyd, mae rhaid i ni ddefnyddio'r treigladau meddal ar ôl 'mae hi'n'. Felly bydd y plant yn dysgu rhifau gwahanol. Dydw i ddim eisiau rhoi gormod iddyn nhw ddysgu.

Yn Gyntaf – o'r gloch/hanner awr wedi drilio



- **Dangoswch y cardiau amser a dywedwch yr amser yn araf. Dywedwch y treigladd yn ofalus. Gofynnwch i'r plant ailadrodd.**
- **Ailadroddwch gyda'r 'cardiau 'hanner awr'. Bydd geiriau a lluniau ar y cardiau.**
- **Hoffwn i'r plant ddangos yr amser gyda'u breichiau.**
- **Nesa, byddwn i'n gofyn iddyn nhw 'Faint o'r gloch ydy hi?' Yn gyntaf, bydden nhw'n ateb gyda'n gilydd, yna'n annibynnol.**
- **Hefyd, dylen i wneud y amseroedd mewn trefn gywir e.e. 1,2,3,4...) yna, mewn trefn anghywir (e.e.2,5,3,6)**

Llongau Rhyfel



Sut i chwarae


1. Rhwch daflen gêm i bob chwaraewr.
2. Yn ddirgel, maen nhw'n tynnu pedair llong ar eu bwrdd (un neu dau sgwâr)
3. Cymerwch eich tro i ddweud amser a lle ar y bwrdd (e.e. A1, hanner awr wedi pump).
4. Os ydy hi'n gywir, mae'r rhaid i chi ddweud 'Taro!', os ydy hi'n fethiant, dywedwch 'methiant!'
5. Mae'r person cyntaf yn daro'r holl longau ydy'r enillydd..

Gwahaniaethu

Bwrdd gêm gyda brawddegau


Llongau Rhyfel

Faint o'r gloch
ydy hi?



TARO!


Mae hi'n chwech o'r
gloch. A1.



Methiant!

Mae'r wedi rhifau a'r
brawddegau arno fe.

SYMBOLS



Mae hi'n_____o'r gloch.

1 un	2 ~~dd~~ au	3 ~~dri~~	4 ~~bed~~ war	5 <u>pump</u>	6 chwech
7 saith	8 ~~wyth~~	9 ~~naw~~	10 ~~deg~~	11 un ar ~~deg~~	12 ~~deuddeg~~

Mae hi'n hanner awr wedi_____.

1 un	2 ~~dau~~	3 <u>tri</u>	4 ~~ped~~ war	5 <u>pump</u>	6 chwech
7 saith	8 ~~wyth~~	9 ~~naw~~	10 ~~deg~~	11 un ar ~~deg~~	12 ~~deuddeg~~

Gwrandewch ar Radio Gŵyl y Gelli!



- Penderfynais i wneud y gweithgaredd hwn achos hoffwn iddyn nhw glywed yr amseroedd eto. Gwrando yn bwysig iawn pan fyddwch chi'n dysgu iaith newydd.
- Sut i wneud
- Bydd yr athrawes yn darllen y sgript radio i'r plant. Bydd y plant yn groesi allan y amseroedd maen nhw'n clywed.
- Ond rhaid y grŵp uchaf ysgrifennu'r amseroedd ar eu bwrdd, wrth ymyl enw'r sioeau.

Gwrandewch ar Radio Gŵyl y Gelli!



SGRIPT

- Croeso i Wyl Radio! Gwrandewch yn ofalus i ddarganfod pa amser mae eich hoff bethau'n digwydd!
- Uh oh! Mae rhywbeth wedi mynd cam! Dyma' amseroedd yn gymysg. Dyna drueni! Gwrandewch yn ofalus i glywed yr amseroedd heddiw.
- **Am ddeg o'r gloch** – Agor y Drysau. *Croeso i bawb! Dewch i mewn i ddechrau'r diwrnod.*
- **Am hanner awr wedi dau** – Sioe Bypedau! Hwyl a sbri gyda phypedau.
- **Am hanner awr wedi un ar ddeg** – Sesiwn Ganu Cymraeg! *Canwch cân Gymraeg syml.*
- **Am hanner awr wedi ddeuddeg** – Stori Amser Brecwast. *Stori ddoniol i blant.*
- **Am ddau o'r gloch** - Crefftau! Beth fyddych chi'n gwneud?
- **Am hanner awr wedi un** – Amser cwis! *Cwestiynau am lyfrau Cymraeg - pob lwc i chi!*
- **Am hanner awr wedi ddeuddeg** – Sioe Nicola Davies. Gwrandewch ar stori gan ein hoff awdur Cymreig
- **Am dri o'r gloch** – Clocsio! Amser i ddawnsio gyda'ch ffrindiau.
- **Am un ar ddeg** – Straeon am y Mabinogion. Gwrandewch l'r stori Mabinogion.
- **Am hanner awr wedi tri** – Amser i fynd adre. Hwyl fawr!

Gwahaniaethu

10:00	11:00	12:00	1:00	2:00	3:00
10:30	11:30	12:30	1:30	2:30	3:30



• Drefn gywir. Bydd y plant yn cylchu'r amseroedd maen nhw'n eu clywed.

10:00	2:30	11:30	12:30	3:00	2:00
1:00	12:00	10:30	1:30	11:00	3:30



Lefel 2.
• Drefn angywir.



Lefel 3.
Bydd y plant yn ysgrifennu'r amseroedd pan fydden nhw'n eu clywed.

Fy Niwrnod yn yr Ŵyl y Gelli



Yn olaf, hoffwn iddyn nhw greu eu cynllun eu hunain. Bydden nhw'n ailgylchu patrwm maen nhw'n gwybod yn barod 'hoffwn i' sy'n lleihau'r gorlwytho gwybyddol.

Y Tasg


Hoffwn iddyn nhw drefnu eu diwrnod yn yr Ŵyl. Mae'n rhaid iddyn nhw ddewis gweithgareddau a'r amseroedd, yna ysgrifennu amserlen syml.

Fy Niwrnod yn yr Ŵyl y Gelli

e.e.

Am _____, hoffwn i _____.

Am naw o'r gloch, hoffwn i **g**yr-raedd y sioe.




Dewiswch eich
gweithgareddau.
Ond, pa hamser?

Mat Iaith



	+ Treiglâd meddal!	Amser		+ Treiglâd meddal!
Am	un dd au dri bed war bump chwech saith wyth naw dd eg un ar ddeg dd euddeg	o'r gloch 	hoffwn i	gyrraedd y sioe fynd i y Sioe Cerddoriaeth _wylïo Awdur 2 _wylïo Awdur 1 f wyta fy nghinio -wneud crefft f wyta hufen ia f ynd adre
Am un o'r gloch, hoffwn i fwytâ fy nghinio.				
Am	hanner awr wedi 	un dau tri pedwar pump chwech saith wyth naw deg un ar ddeg ddeuddeg	hoffwn i	gyrraedd y sioe fynd i y Sioe Cerddoriaeth _wylïo Awdur 2 _wylïo Awdur 1 f wyta fy nghinio -wneud crefft f wyta hufen ia f ynd adre
Am hanner awr wedi un, hoffwn i wneud crefft.				



	+ Treigladd meddal!	Amser		+ Treigladd meddal!
Am	un ddau dri bedwar bump chwech saith wyth naw ddeg un ar ddeg ddeuddeg	o'r gloch	hoffwn i	gyrraedd y sioe fynd i y Sioe Cerddoriaeth _wyllo Awdur 2 _wyllo Awdur 1 fwyta fy nghinio
Am	hanner awr wedi	un dau tri pedwar pump chwech saith wyth naw deg un ar ddeg deuddeg		-wneud crefft fwyta hufen îa fynd adre



	+ Treigladd meddal!	Amser		+ Treigladd meddal!
Am	un ddau dri bedwar bump chwech saith wyth naw dddeg un ar ddeg ddeuddeg	o'r gloch	hoffwn i	gyrraedd y sioe fynd i y Sioe Cerddoriaeth _wyllo Awdur 2 _wyllo Awdur 1 fwyta fy nghinio
Am	hanner awr wedi	un dau tri pedwar pump chwech saith wyth naw deg un ar ddeg deuddeg		-wneud crefft fwyta hufen i ^a fynd adre

achos

bydd yn hwyl
bydd yn ddoniol
rydw i ei hoffi
mae'n fy hoff beth.

Hoffwn iddyn nhw ymestyn eu brawddeg.